

DOLEN Y TAB – 10

26–27 Mehefin 2020

DYDD SUL

28 MEHEFIN

OEDFA'R TABERNAEL

Cofiwch droi i mewn ar lwyfannau *Facebook* a gwefan y capel fore Sul. Bydd yr oedfa yng ngofal y Parchedig Aled Edwards gyda chefnogaeth Robertsiaid, Maes yr Haul.

10.30 www.annibynwyr.org

Dim manylion i law mor belled.

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Dan arweiniad Dr Catrin Elis Williams, Bangor.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Sara Roberts, Boduan.

Cofiwch hefyd fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul: www.cristnogaeth21.cymru

HENO
(NOS WENER, 26 MEHEFIN)

AM 7 O'R GLOCH

Yn fyw i'ch cartrefi . . .

CWIS BOB OED
CAPEL Y TABERNAEL

CWISFEISTRI:

Eluned, Ceri Anwen a Lowri

CROESO I BAWB YMUNO AR ZOOM!

ID: 88631469252

CYFRINAIR: 391265

DATHLU'R 150

Ym mhen ychydig dros wythnos byddwn fel eglwys yn dathlu 150 o flynyddoedd ers cynnal agoriad swyddogol Capel y Tabernacl ar ei newydd wedd rhwng y 3^{ydd} a'r 5^{ed} o Orffennaf 1870. Mae'n anodd i ni heddiw amgyffred maint optimistiaeth a ffydd tua 70 o aelodau mewn ardal dlodaidd fel Efail Isaf aeth ati i godi adeilad fyddai'n dal cynulleidfa o dros 250 o bobl.

Wrth gwrs, yn groes i'n cynllun gwreiddiol, ni fydd modd i ni ymuno gyda'n gilydd i fynychu Oedfa'r Dathlu oddi mewn i furiau'r capel ar fore Sul 5 Gorffennaf. Ond, serch hynny, caiff y dyddiad ei nodi gennym mewn ffyrdd arbennig iawn, fydd yn wahanol i'r methiant i gynnal digwyddiad yn 1970 i nodi'r canmlwyddiant. Bryd hynny, os deallais yn iawn, roedd y gynulleidfa mor fach, a'r aelodau mewn gwth o oedran, fel na lwyddwyd i drefnu digwyddiad teilwng o'r achlysur.

Yn y lle cyntaf bydd Oedfa'r Dathlu arbennig iawn wedi ei chynllunio a'i chyfarwyddo gan Emlyn Davies a fydd ar gael ar holl lwyfannau digidol y Tabernacl fore Sul 5 Gorffennaf.

Yn dynn ar sodlau'r Oedfa'r Dathlu fe gyhoeddir atodiad lliw-llawn swmpus iawn i *Tafod y Tab*. Bydd yn olrhain llanw a thrai yr achos yn y Tabernacl o'r cychwyn hyd heddiw, gan roi sylw dyledus i'r arweinwyr hynny a chwaraeodd ran amlwg yn yr hanes. Unwaith eto fe fydd y cyhoeddiad ar gael yn ddigidol yn unig am y tro, ond byddwn yn ei argraffu ar bapur pan fydd modd ei ddosbarthu i'r aelodau. Unwaith yn rhagor, rhaid diolch i Emlyn am dreulio misoedd yn paratoi'r testun a chasglu cyfraniadau.

Rwy'n siŵr y bydd pawb yn gytûn, o gofio'r amgylchiadau blin iawn rydym yn byw drwyddynt ar hyn o bryd, y bydd y dathliadau yn ystod yr wythnos nesaf yn deilwng iawn o ymroddiad ein rhagflaenwyr ac yn ein hysbrydoli ninnau bob un i barhau i weithredu a thystio yn enw'r Iesu – nid yn unig o fewn muriau'r Tabernacl ond hefyd yn ein cymuned ehangach.

CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Gyda chyfnod casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol wedi dod i ben, byddwn yn ail-afael yn ein casgliad ariannol ar gyfer Banc Bwyd Taf Elái. Mae mwy o bobl nag erioed yn dibynnu ar y Banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn, a ninnau'n methu cynnal ein casgliad bwyd arferol oherwydd y cyfyngiadau presennol. Fe fyddwn ni'n dilyn y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif 03607499

Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Siec yn daladwy i: Capel y Tabernacl, Cyf gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái. Anfoner at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

GWANWYN 2020



(Llun: John Llew Thomas)

Ni wn am wanwyn fel y gwanwyn hwn
A'r ofn a'r pryder sydd yng nghalon dyn,
Heb gwmni câr a ffrind mae'r dyddiau'n llwm,
A diflas a dibwys yw'r oriau blin.
Ond gwn y daw y dyddiau hyn i ben;
Anfonaf weddi daer i ti'n y nen
I ofyn am dy law i'm tywys i
Tuag at oleuni'r wawr sy'n codi draw
A'm golwg ar y pethau hynny sydd
Yn llonni nghalon, ac fe gilia braw
Wrth i mi dderbyn cysur yn fy ffydd.
Fe gofiau am dy eiriau di o hyd
A'r rhain all wella holl ddoluriau'r byd.

Glenys Kim Protheroe

RHESTR O'R GOFALWYR ARDAL

Creigiau

Wyn a Mari Jones; Llio Ellis; Carys Emms;
Jen Mc Donald; Iwan Rowlands
Helen Middleton; Nia Williams.

Groes-faen

Geraint Wyn Davies.

Penywaun

Bethan Reynolds; Heulyn Rees
Catrin Rees.

Efail Isaf

Rhian Eyres.

Parc Nant Celyn

Amanda Evans; Hefin Gruffydd
Judith Thomas; Manon Huws.

Pentre'r Eglwys

Kathryn Gwyn; Carys Davies
Rhiannon Humphreys.

Pentyrch

Sara Esyllt; Marian Wynne.

Meisgyn

Lowri Leeke; Mari Wort
Eluned Davies-Scott; Siân Barnes.

Tonteg

Audrey Lewis; Elaine James.

Llantrisant

Lowri Roberts; Eurfyl Davies
Jenny Davies.

Radur, Gwaelod y Garth, Caerdydd

Ros Evans; Tomos Morse.

Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpenqwern@yahoo.co.uk / 01443 225205.